PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 465 | Ionawr 2024

**Plygain**
t.6







## Blwyddyn newydd dda!

**Da gweld cymaint fu yn canu calennig eleni – ar draws dalgylch y Tincer.**



Elinor, Leusa a Lowri yn Llandre.



Erin a Carn i Ann Elis yng Nghwmrheidol.



Ifan a Myfi i Delyth Ralphs ym Mhenrhyn-coch.



Braf oedd gweld fod Martha Humphreys yn cadw y traddodiad o gasglu Calennig yn yr ardal. Gobeithio y gwelwn yn gwneud yn flynyddol a hefyd efallai bydd ei brawd Celt yn medru fod yn gwmni iddi yn y dyfodol.



Ifan, Twm a Deio Ellis yng Nghwmrheidol.



Elsi a Manon yng Nghapel Bangor.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Chwefror**: **Dyddiad cau** – Chwefror 2; **Dyddiad cyhoeddi** – Chwefror 14

**IONAWR 17** Nos Fercher Carwyn Graves yn trafod Bwydydd Cymreig Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**IONAWR 18** Nos Iau Merched peryglus: profiadau merched yng Nghymdeithas yr Iaith. Gwenan Creunant yn holi Jane Aaron, Tamsin Davies, Siân Howys a Bethan Ruth yn y Cwps, Aberystwyth am 7.00 Mynediad am ddim.

**IONAWR 18** Nos Iau Ymweliad Cymdeithas y Garn â'r Ganolfan Arloesi, Gogerddan am 6.00

**IONAWR 19** Nos Wener Noson bingo yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch am 7.00. Croeso cynnes i bawb.

**IONAWR 23** Nos Fawrth Cyfarfod Sioe'r Cardis - Pwyllgor y gogledd am 7:30 yn Neuadd Llanfarian.

**IONAWR 26** Nos Wener Bwca yn sesiwn nos Wener y Llew Gwyn, Tal-y-bont am 8.00. £10

**IONAWR 27** Nos Sadwrn "Old School Dance"; adloniant gan y Twurzels yng Nghlwb Pel-droed Penrhyn-coch am 7:00. Am docyn cysylltwch â Mearina James 07870 875 473 Digwyddiad Sioe'r Cardis.

**IONAWR 27** Nos Sadwrn Gruffydd Wyn yn perfformio yn Amgueddfa Ceredigion fel rhan o ddigwyddiadau Santes Dwynwen Cyngor Aberystwyth.

**CHWEFROR 3** Nos Sadwrn Wil Tan a Tri Gog a Hwntw yng Ngwesty Llety Parc Aberystwyth am 8.00. Tocynnau yn £10 yr un ac ar gael o'r gwesty. 01970 636333. Holl elw'r noson tuag at elusennau lleol.

**CHWEFROR 8** Dydd Iau Gŵyl offerynnol yr Urdd Ceredigion yn Ysgol Bro Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan

**CHWEFROR 14** Nos Fercher Lleuwen Steffan – Emynau coll y werin yng Nghapel y Morfa am 7.30

**CHWEFROR 22** Nos Iau Ifor ap Glyn ac Angharad Jenkins yn Cicio'r Bar (Eurig Salisbury a Hywel Griffiths) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.45. Tocynnau: £10 Gostyngiad: £8 UMCA £5

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Rhagfyr 2023

£25 (Rhif 245) Elwyn Ioan,
11 Ffordd Y Drindod, Aberystwyth
£15 (Rhif 198) Y Parchg Wyn Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 262) Elizabeth Evans, Moorlands, y Borth

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod mi'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com. Bydd rhaid ail ymaelodi erbyn y cyntaf o Ionawr 2024.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


**Lluniau i'r Tincer**
Croesawn dderbyn lluniau trwy e-bost ond lle digwydd hynny dylent fod mewn fformat jpg. **NI DDYLID EU RHOI MEWN DOGFEN WORD.**


CYMRAEG
Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

# Cystadleuaeth bl 5-6

Derbyniwyd 27 ffeithlun gwahanol ar amrywiaeth o themâu a oedd yn amrywio o sut i ddathlu Nadolig 'Gwyrdd', traddodiadau'r Nadolig, adar, moch i bêl-droed. Gwelwyd ymdrech dda gan bawb ac roedd pob ymgais yn ddeniadol a diddorol. Chanel oedd yn fuddugol oherwydd fod ei ffeithlun yn gryno a chlir. Roedd Florence yn ail am greu ffeithlun diddorol ar ffurf fideo ac Eleri yn drydydd gan ei bod wedi cynnwys llawer o ffeithiau diddorol yn ei ffeithlun. Diolch i bawb am gystadlu!

Mae Chanel yn ennill set o gardiau gemau Cardiau Cymru - gweler https://www.cardsofwales.com/cy a Florencd ac Eleri yn ennill cyfrolau gyhoeddwyd gan Atebol - diolch i'r ddau gwmni am eu nawdd i'r gystadleuaeth ac i Eryl Jones am feirniadu.

**Eryl Jones**



Chanel



Florence



Eleri

## 30 mlynedd yn ôl



Plant Ysgol Trefeurig ar ôl eu gwasanaeth diolchgarwch pan gyflwynwyd siec i Dr Lewis at Ward Angharad, Ysbyty Bron-glais (o *Dincer* Ionawr 1994)



Plant ysgol Sul St Ioan *yn* eu gwasanaeth Nadolig. Llun: Dewi Jones (o Dincer Ionawr 1994)

YTincer@googlemail.com

## CYFEILLION Y TINCER

**FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB**

ENW LLAWN

CYFEIRIAD

CÔD POST

RHIF FFÔN

**Dychweler i Bethan Bebb, gweler ei manylion ar dudalen 2**

**TALIADAU**

Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

- ☐ Arian neu siec
- ☐ Archeb banc

**DATGANIAD**

Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.

Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer

Llofnod

Dyddiad

# Y Borth



## Nofio dros Amnest

Daeth dwsinau o bobl o bob oed ynghyd ar draeth y Borth ar ddydd San Steffan i drochi yn y tonnau oer. Grŵp Amnest y Borth sy'n trefnu'r digwyddiad blynyddol ac mae'n mynd o nerth i nerth bob blwyddyn. Eleni codwyd £225 tuag at waith Amnest Rhyngwladol.




**Marathon Codi Arian**
Cafodd cyfraniad o dros £800 ei gyflwyno i Sied Dynion Hwb Cymunedol y Borth gan Garmon Nutting a gododd yr arian drwy gael ei noddi i redeg Hanner Marathon Caerdydd.

Mae grŵp Sied y Dynion yn cwrdd yn yr Hwb bob prynhawn dydd Mawrth rhwng 2 a 4yp ac mae croeso i unrhyw ddynion dros 18 oed ymuno. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r trefnydd drwy e-bost: pete@borthcommunityhub.co.uk.

**Gwledd Nadoligaidd**
Paratowyd cinio a the prynhawn ar ddydd Nadolig ar gyfer 22 o bobl leol oedd naill ai'n ddigartref neu ar eu pennau eu hunain ar 25 Rhagfyr.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn adeilad Hwb Cymunedol y Borth ar Ffordd Clarach ac fe'i drefnwyd gan ficer y plwyf, y Parchedig Nicholas Bee, gyda chymorth rhai o aelodau Eglwys Sant Matthews gan gynnwys Margaret Griffiths. Cafwyd cawl cennin a thatws i ddechrau gyda llond plât o dwrci a thrimins i ddilyn ac yna dewis o bwdin Nadolig, crymbl afal a chwstard neu salad ffrwythau. Cyn diwedd y dydd, gweinwyd te prynhawn yn cynnwys detholiad o frechdanau, rholiau selsig, coesau cyw iâr, caws a bisgedi, cacen Nadolig, mins peis a the neu goffi. Yn ogystal â'r 22 o bobl a dreuliodd ddydd Nadolig yn yr Hwb, aed â phrydau ar glyd hefyd at ddau unigolyn lleol.

**Coffau'r Holocost**
Bydd arddangosfa arbennig yn Hwb Cymunedol y Borth i nodi Diwrnod Coffau'r Holocost ar 27 Ionawr. Un o drigolion y pentref sydd wedi trefnu'r arddangosfa er cof am ei thad-cu a lofruddiwyd yn Auschwitz yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bydd yr arddangosfa yno o 26 Ionawr ymlaen ac ar 27 Ionawr, gofynnir i bobl gynnau cannwyll yn ddiogel yn eu ffenest i gofio'r unigolion a laddwyd oherwydd pwy oedden nhw ac fel arwydd yn erbyn rhagfarn a chasineb heddiw. Bydd seremoni ar-lein yn cael ei chynnal ar wefan Ymddiriedolaeth Diwrnod Coffau'r Holocost hefyd ac adeiladau sifig yn cael eu goleuo'n borffor.

**Profedigaeth**
Estynnwn bob cydymdeimlad i deulu a ffrindiau Michael Jones, cyn landlord tafarn y Victoria yn y Borth, a fu farw ychydig ddyddiau cyn dydd Nadolig. Cynhaliwyd angladd 'Mike y Vic', fel roedd e'n cael ei alw'n lleol, yn Amlosgfa Aberystwyth ar ddydd Mawrth 8 Ionawr 2024.

**Clwb Pêl-droed y Borth**
Bydd Brain y Borth yn chwarae'r gemau canlynol yng Nghynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth yn ystod ail hanner mis Ionawr, os yw'r tywydd yn caniatàu:
Ionawr
20 Dydd Sadwrn – 2yp – Borth Utd v Llanilar Res FC
27 Dydd Sadwrn – 2yp – Tal-y-bont v Borth Utd
Caiff unrhyw ddiweddariadau eu postio ar dudalen FaceBook y clwb.






# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

**Adran y Menywod**

Daeth y tymor i ben ar 16 Rhagfyr gyda'r menywod yn dod at ei gilydd ar gyfer cinio Nadolig blasus wedi'i baratoi gan arlwywyr newydd y clwb, Laura a Nathan Perkins. Roedd y noson yn gyfle hefyd i ddathlu llwyddiannau enillwyr treialon y Nadolig ac i gyflwyno gwobrau diri. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr!

Cystadleuaeth 1 - Medal
1. Angharad Basnett - Net 74
2. Helen Lewis - Net 76
3. Breda Roberts - Net 77
4. Kay Thomas - Net 79

Cystadleuaeth 2 - AM/AM
1. Jane Raw Rees, Barbara Flanagan, Jean Harrison - 37 pwynt
2. Karen Evans, Kathy Price
3. Anne Morris - 33 pwynt

Cystadleuaeth 3 - Stableford
1. Clare Jones - 35 pwynt
2. Margaret Roberts - 33 pwynt
3. Jane Raw Rees - 30 pwynt
4. Carol Holmes - 29 pwynt

Cystadleuaeth 4 - Texas Scramble
1. Helen Lewis a Jean Harrison - 72 net
2. Barbara Flanagan a Kay Thomas - 76 net
3. Karen Evans a Carol Holmes - 76 net

Cystadleuaeth 5 - Stableford
1. Margaret Roberts - 40 pwynt
2. Clare Jones - 33 pwynt
3. Debbie Jones - 33 pwynt
4. Helen Lewis - 33 pwynt

**Cychwyn Cystadlu 2024**

Cafodd cystadleuaeth gyntaf 2024 ei chynnal ar 6 Ionawr gydag adran y menywod yn croesawu rhai o aelodau 'Newydd i Golff' y clwb. Ar ddiwrnod sych ac mewn heulwen bendigedig, chwaraewyd cystadleuaeth naw twll yn dilyn rheolau Glasawdau Canada. Y capten Catrin Pugh Jones a Sarah Moon oedd yn fuddugol gyda Helen Lewis a Rhodri Edwards yn ail, a Clare Jones ac Esther Prytherch yn drydydd.





## Ysgol Penweddig



**Dylan Herron a Mirain Evans sy'n mwynhau perfformioyn y pantomeim y mis yma. Mae dwy ddisgybl o Ysgol Rhydypennau hefyd yn y sioe -Mari Roberts a Maddison Hughes-Jones. Bydd y Panto ymlaen hyd dydd Sadwrn 27 Ionawr.**



**Jack, Lois, Iwan a Miri gafodd arholiad ymarferol drama blwyddyn 12 cyn y Nadolig**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Penrhyn-coch

*Ionawr*
21 10.30 Peter Thomas
28 10.30 Noa Evans

*Chwefror*
3 2.30 Oedfa gymun Peter Thomas
10 10.30 Peter Thomas
17 2.30 I'w drefnu
24 10.30 I'w drefnu

Clwb Sul Horeb
10.30
28 Ionawr
18 a 25 Chwefror



**Aelodau Clwb Sul Horeb yn eu gwasanaeth Nadolig - diolch i Wendy Reynolds a'i chynorthwywyr. Diolch i Mairwen Jones am addurno y capel ac i Richard Owen am gynorthwyo gydag ymweliad Siôn Corn.**

**Menter newydd**
Dymunwn yn dda i Carys Angolino, Ger-y-llan, ar agor siop bwyd stryd Sicilian yn Stryd yr Undod - dros y ffordd i Jonah's.

**Plygain**
Cynhaliwyd y 33ain blygain flynyddol yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn, nos Iau 21ain Rhagfyr 2023 am 7.00. Gweinyddwyd gan y Parchedig Lynn Rees ; darllenwyd y llith gan y Parchg Peter M. Thomas a'r organydd oedd Eirwen Hughes.

Cafwyd eitemau gan Barti'r Penrhyn; Marianne Jones Powell;Pedwarawd Glanrafon; Efan Williams; Parti Llandre; Cantorion Aberystwyth; Daniel Huws; Triawd Dyfi; Alwyn Evans; Linda Jones; Parti'r Parc; John Ifor a Penri; Enid Morgan; Parti Heol Iorwerth, Machynlleth; Trefor a Rhiannon; Parti Fronheulog (Llangedwyn); a Cynog Dafis. Cyflwynwyd y casgliad - £454.40 - tuag at Tearfund. Roedd cynulleidfa o 80 yn y bwyd bys a bawd wedyn yn Neuadd yr Eglwys.

**Canu yn y drws**
Aeth 5 o gantorion o gwmpas y pentref brynhawn dydd Gwener 29 Rhagfyr, gan ymweld â chwe cartref i ganu i'r rhai sydd yn gaeth i'r tŷ.

**Merched y Wawr**
Cawsom noson ddiddorol yng nghwmni Eirian Reynolds yn siarad am ei daith i'r Wladfa i godi arian i Marie Curie. Gorffennwyd y noson yn blasu empanadas- bwyd traddodiadol yr Ariannin.

**Wi-fi**
Mae Wi-fi nawr ar gael yn Neuadd y Penrhyn. Mae y manylion ar yr hysbysfyrddau i mewn.



**Bingo yn Neuadd yr Eglwys**



**Brownies Penrhyn-coch**

**Newid aelwyd**
Dymuniadau gorau i Sian a Dafydd Davies, a'u plant, Deio a Dyfan, sydd wedi symud o'r Ddôl Fach i Dôl Helyg yn ystod y mis.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Elizabeth Evans a'r teulu, Glan Seilo ar farwolaeth William Arthur Evans (Billy Llwyniorwerth) ar 22 Rhagfyr. Gweler mwy dan hanes Capel Bangor.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
*Tim 1af*
Tlws amatur Cymdeithas Pêl-droed Cymru
16 Rhagfyr
Wdig 1 Penrhyn-coch 3

*Cynghrair*
30 Rhagfyr
Llanfair-ym-Muallt yn erbyn Penrhyn-coch. Gohiriwyd

*Cynghrair*
6 Ionawr
Penrhyn-coch 4
Dyffryn Maesyfed 1
*Eilyddion*
16 Rhagfyr.
Eilyddion Llanuwchllyn 6
eilyddion Penrhyn-coch 4

**Gêmau nesaf**
Cwpan Amatur Cymdeithas Cymdeithas Pêl-droed Cymru
*Ionawr*
20 Penrhiwceibr Rangers AFC

Lock Stock Ardal North East Cynghrair
27 Llanuwchllyn

*Chwefror*
3 Llanfair Unedig
10 Tref Llangollen
24 Dyffryn Maesyfed



## Colofn **Elin Jones AS**

Dymuniadau gorau i chi oll ar drothwy'r flwyddyn newydd. Gobeithio cafoch gyfle i fwynhau dathliadau'r ŵyl.

Un o'r materion fydd unwaith eto yn hawlio sylw yn 2024 fydd sefyllfa'r bysus o fewn y sir, wrth i sgyrsiau orfod digwydd o fewn cymunedau ar draws y sir am y posibilrwydd o ddechrau gwasanaethau bws cymunedol, lle mae gwasanaethau statudol wedi diflannu yn ddiweddar. Gobeithio cyn hir byddwn hefyd yn derbyn adborth yn dilyn cynllun beilot bws cymunedol Llambed fu cyn y Nadolig.

Mae Cefin Campbell AS, Ben Lake AS a minnau yn cyfarfod cyn hir gyda Gweinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Lee Waters AS yn y gobaith bydd modd cael sgwrs defnyddiol yn yr wythnosau nesaf i drafod dyfodol bysus cefn gwlad Cymru yn y tymor hir.

Cyn y Nadolig bu peth gofid yn lleol am ddyfodol rhai o ganolfannau ymwelwyr Ceredigion a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sef Ynys-las, a Bwlch Nant yr Arian. Mewn cyfarfod â mi cyn y Nadolig daeth yn amlwg nad yw CNC yn gweld rhedeg Canolfannau Ymwelwyr fel rhan o'u gweithgarwch craidd yn y dyfodol oherwydd cyfyngiadau ar eu cyllid. Deallaf bydd yr asiantaeth yn canolbwyntio ar faterion allweddol fel mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth a'u gweithgareddau rheoleiddio a gorfodi.

O ran Canolfan Ynys-las, bydd CNC yn gofyn am fynegiant o ddiddordeb yn yr ardal leol cyn bo hir i weld a oes gan unrhyw un gynnig defnyddiol ar gyfer y ganolfan. Bydd Nant yr Arian (a Choed-y-Brenin) yn parhau fel ar hyn o bryd ond eto bydd CNC yn chwilio am bartner i gymryd drosodd y cyfleusterau yn y dyfodol.

Mae CNC wedi cadarnhau byddant yn parhau i redeg y canolfannau tan hynny. Os oes gyda chi unrhyw syniadau neu gynigion ar gyfer rhain, mae croeso i chi gysylltu â mi, drwy ebostio: elin.jones@senedd.cymru. Gallaf drafod rhain gyda chi, a'ch cynorthwyo i gysylltu â'r swyddogion priodol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Unwaith eto, blwyddyn newydd hapus ac iach i holl drigolion Ceredigion.

## Goginan

**Cinio'r Henoed**

Cafwyd prynhawn hwylus eleni eto gyda bwyd bendigedig wedi ei drefnu gan Gymdeithas Gymunedol Goginan. Diolch yn fawr i'r aelodau wnaeth yn sicr fod y rhai oedd yn methu mynychu Y Druid cael eu bwyd wedi ei ddosbarthu yn eu cartrefi hefyd rhaid diolch yn fawr i Nigel a'i dim o'r Druid am baratoi y pryd blasus.



YN EISIAU

**Trefnydd Ecodyfi a Chydlynydd Biosffer Dyfi**

Cyfle arbennig i berson brwd!

**Nodweddion allweddol i gynnwys:**: Datblygu a rheoli prosiectau a chodi arian; Rheoli staff a sefydliad; Cyfathrebu; Y gallu i weithio yn y ddwy iaith; Gwybodaeth am y gymuned leol a chynaliadwyedd.

**Y Nod:** Datblygu adnoddau a chapasiti ecodyfi a Biosffer Dyfi UNESCO. Cyd-gynllunio i sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gwirioneddol i Fro Ddyfi ac ardal Biosffer Dyfi yn ehangach.

Contract cychwynnol 12 mis; 37 awr/wythnos.
Cyflog £33-37K yn dibynnu ar sgiliau a phrofiad.
Am fwy o fanylion: www.ecodyfi.cymru, andy@ecodyfi.cymru, 01654 703965
Dyddiad cau NEWYDD: 10yb 12 Chwefror 2024

ecodyfi
Biosffer Dyfi Biosphere
gwerth y byd - world class by nature

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
Byddwn yn agor am 5.30 yn ystod yr wythnos am yr ychydig fisoedd nesaf.

TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

*Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr y Tincer*

**2024**

# ATEBION CWIS NADOLIG Y TINCER

Mae'n amlwg fod darllenwyr Y Tincer yn hoffi siopa oherwydd dyma'r ymateb gorau erioed i'r cwis! Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y cwis. Dyma'r wythfed cwis ac mae rhai ffyddloniaid wedi ei gefnogi o'r cychwyn. Diolch hefyd i Elgan Griffiths am y cysodi graenus. Dyma'r atebion cywir a chafodd neb drafferth gyda'r saith siop cyntaf:

1. Jonah's neu Marchnad Bysgod Jonah
2. Polly's
3. Charlie's
4. Gwdihw neu Sgidiau Gwdihw
5. Cerdd Ystwyth.
6. Maeth y Meysydd
7. Cactws



Dyma ble ddechreuodd y drafferth i nifer o'n siopwyr.

8. Cynigwyd Driftwood, Salt Rock a Broc Môr ond Siop y Pethe oedd yr ateb cywir. Ysgrifennodd Llwyd o'r Bryn, neu Robert Lloyd i roi ei enw bedydd, hunangofiant â›r teitl 'Y Pethe' ac mae'r gair wedi dod i sefyll am y gwerthoedd a'r traddodiadau a gysylltir â'r Gymraeg. Dyna'r ysbrydoliaeth i Gwilym a Megan Tudur i alw'r siop yn Siop Y Pethe. Er fod Broc Môr yn rhan o'r siop bellach Siop y Pethe yw'r enw sy'n dal ar flaen y siop. Felly yn Siop Y Pethe y prynodd y Tincer bach y llyfr Hallt.
9. Cynigwyd Inkwells sy'n gynnig digon rhesymol ond Siop Inc oedd yr ateb cywir. Inc yw'r hylif sy'n creu argraff ac mae siop Inc yn llawn o gardiau ar gyfer pob achlysur, a llyfrau a chylchgronau diddorol ar bapur.
10. Cynigwyd Mollie's ac mae'n wir fod Mollie's yn gwerthu pethau melys ond Siop Pwdin oedd yr ateb cywir. Y newyddion trist wrth i'r Tincer fynd i'r wasg yw fod Siop Pwdin yn cau ar ddiwedd y mis.

Derbyniwyd atebion cywir oddi wrth Beryl Bowen; Janet Evans; Marian Beech Hughes; Ann Jones; Mair Lewis, Maes Ceiro ac Anwen, Hywel ac Elin i gyd o Bow Street. Richard E. Huws, Bont-goch (Elerch); Glenys Howells, Penrhyn-coch; John Lewis, Llanbadarn Fawr; Carys Briddon,Tre'r-ddôl; Sion a Tomos Davies, Abermagwr a Bethan Ifan. Rhoddwyd yr enwau yn het y golygydd a'r enw a dynnwyd allan ac yn ennill gwobr o £15 oedd : Mair Lewis, Maes Ceiro, Bow Street.



Llongyfarchiadau i Mair a hwyl i bawb gyda'r siopa.
Diolch unwaith eto i Gareth am drefnu a noddi y cwis.

## Llandre

**Priodas Ddiamwnt**
Llongyfarchiadau mawr i Llinos a Cynog Dafis, Cedrwydd, ar ddathlu eu priodas ddiamwnt ar y cyntaf o Ionawr.

**Croeso adref**
Croeso adref i Gwenda James, Tremedd, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

**Profedigaethau**
Cydymdeimlir â Mrs Annetta Morgan, Elsbeth a Hafwen, Tynrhos, ar farwolaeth Glyn ar ddydd Gŵyl San Steffan yn 85 oed.

Ac â Gwynfryn Evans, Y Ddôl a'r teulu ar golli brawd Gwynfryn – Hywel Evans, Marchlyn, Pennal yn ddiweddar

**Merched Y Wawr**
Merched y Wawr Genau'r-Glyn yn dathlu'r Nadolig yn Crefftau Pennau



## Dôl-y-bont

**Cywiriad**
Ymddiheuriadau wrth gydymdeimlo y mis diwethaf â theulu Henllys ar eu profedigaeth dylid fod wedi nodi enw ewythr Rhian fel Emrys – nid Ifor.



## Penodi Llyfrgellydd

Cyhoeddodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru bod Dr. Rhodri Llwyd Morgan wedi'i benodi yn Brif Weithredwr. Bydd Rhodri'n ymuno â'r Llyfrgell yn Ngwanwyn 2024. Cyn y penodiad hwn roedd Rhodri'n Gyfarwyddwr y Gymraeg, Diwylliant Cymru a Chysylltiadau Allanol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n dod â phrofiad helaeth o'r sector addysg uwch, y Gymraeg a diwylliant ac o ddatblygu a delifro cynlluniau uchelgeisiol.

Wrth wneud sylw am y penodiad dywedodd Ashok Ahir, Llywydd Llyfrgell Genedlathol Cymru:

"Rydym yn falch iawn o benodi Rhodri Llwyd Morgan yn y rôl allweddol hon ac yn edrych ymlaen yn fawr fel Bwrdd at gael cydweithio i barhau i siapio y Llyfrgell ar gyfer y dyfodol. Mae'n unigolyn sy'n deall y Llyfrgell a'i harwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol, ac sydd yn brofiadol mewn arwain ar lefel uchel mewn nifer o feysydd. Bydd ei brofiad fel arweinydd yn dangos y ffordd i'n staff ymroddedig mewn cyfnod o newid i'n sefydliad ac i'r sector."

# Clybiau nos yn 'annog' pobl ifanc i fepio

## Gan Llŷr Eirug

**Mae pobl ifanc yn teimlo fod gwerthiant fêps untro mewn clybiau nos yn eu 'hannog' i ddechrau fepio.**

Yn ôl yr elusen Ash 'gwelwyd cynnydd o 50% yn nifer y bobl ifanc a phlant sy'n arbrofi gyda fêps ers 2023'. Gyda chlybiau nos yn gwerthu fêps untro, a yw hyn yn ffactor sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn o ddefnyddwyr fêps untro?

Yn wahanol i ysmygu sigaréts arferol nid yw ysmygu fêps y tu mewn i fannau cyhoeddus, di-fwg yn torri unrhyw drosedd. Noda deddfwriaeth Ddi-fwg Llywodraeth Cymru 'os bydd unigolyn yn defnyddio e-sigarét/fêp mewn lleoliad y mae'n ofynnol iddo fod yn lleoliad di-fwg, ni fydd yr unigolyn hwnnw'n cyflawni trosedd'.

**'Annheg iawn ar y rhai sydd yn dewis peidio'**

Yn ôl Llywodraeth Cymru, cafodd Rheoliadau 'Di-fwg' (2007) eu cyflwyno i amddiffyn gweithwyr a'r cyhoedd rhag effeithiau niweidiol mwg ail law. Er hyn, teimla Heledd Prys, Myfyrwraig o Brifysgol Caerdydd, y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wahardd y



defnydd a gwerthiant o fêps untro mewn clybiau nos.

"Mae'n annheg iawn ar y rhai sydd yn dewis peidio â 'fêpio' gan fod y mwg yn treiddio trwy'r clwb ac felly'n ein gwneud yn ysmygwyr goddefol. I fod yn onest, rwy'n eithaf amheus ohonynt gan eu bod yn sylweddau gweddol newydd, sy'n golygu nad oes llawer o waith ymchwil wedi'i wneud iddyn nhw ar hyn o bryd" meddai.

"Mae'n anghyfrifol iawn i glybiau nos fod yn eu gwerthu gan fod mwy o debygrwydd i bobl gael eu darbwyllo i brynu 'fêp' o dan ddylanwad alcohol, a'u bod o fewn eu cyrraedd. Yn bendant, dylid cyflwyno deddfwriaeth i wahardd 'fepio' tu mewn i glybiau nos. Ni ddylai clybiau nos fod yn annog hyn, gan eu bod yn targedu'r boblogaeth ifanc, sy'n cael eu dylanwadu'n hawdd"

**'Datblygu ymddygiadau caethiwus'**

Mae Dr. Amira Guirguis, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, yn arbenigwr ym maes Camddefnyddio Sylweddau' ac yn lleisio'i phryderon dros fepio ymhlith pobl ifanc:

"Gall fêps arwain at ddatblygu ymddygiadau caethiwus ac arbrofi gyda sylweddau sydd yn hawdd mynd yn gaeth iddynt, fel nicotîn, yn ogystal â chael eu hamlygu i sylweddau niweidiol – rhai ohonynt efallai sydd ddim erioed wedi cael eu profi trwy lwybr anadliad."

"Mae'r arfer o werthu fêps mewn clybiau nos yn ei gwenud yn haws cael gafael ar ddyfeisiau a allai fod yn niweidiol, heb ddigon o fonitro i gyflwyno cyfyngiadau, er enghraifft, i'r rhai dan 18 oed" meddai.

Gofynnwyd i glwb nos, sy'n gwerthu fêps untro, am y rheswm dros eu penderfyniad i'w gwerthu. Yn ôl y clwb nos:

"Daeth cwmni o'r enw *Vapes Apes* atom yn cynnig i osod peiriant gwerthu fêps yn ein clwb nos. Yn gyson, roedd pobl yn holi ble roedd y siop agosaf i brynu fêp neu sigaréts. Oherwydd hyn, penderfynon ni dderbyn cynnig *Vapes Apes*. Er bod peiriannau gwerthu fêps y clwb nos wedi'i leoli yn nghefn y clwb ac ddim yn wynebau y cwsmeriaid mae gwerthiant y fêps wedi bod yn llwyddiannus ac yn boblogaidd."

Gellir gweld felly bod potensial i hyn ddod yn broblem gynyddol o fewn ein cymdeithas.

**Llyr Eirug, Bow Street**

**Mae Llŷr Eirug o Bow Street yn fyfyriwr yn Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Cymru Caerdydd.**










# LLE MAE NHW NAWR?

**Y mis hwn Ioan a Rhian (gynt o Ddolwerdd, Dôl-y-bont) sy'n rhoi ychydig o'u hanes.**

Wedi cwblhau fy addysg yn Ysgol Gynradd Rhydypennau, Ysgol Gyfun Penweddig a Choleg Chweched dosbarth ym Mangor, penderfynais roi tro ar fod yn actor a nid dilyn y llwybr naturiol i fyd amaeth fel y disgwylid!! Wedi gyrfa weddol lwyddiannus am dros bymtheng mlynedd ym myd cyfresi drama Cymraeg megis Pobl Y Cwm, Y Palmant Aur, ambell i ffilm a llawer o waith llwyfan a theatr-mewn-addysg, penderfynais ei bod yn amser setlo mewn un man a rhoi y gore i fyw allan o siwtcês yn symud o un llety i'r llall. Dwi nawr yn byw yng nghanol Cofis Caernarfon gyda fy mab Ianto ac wedi cael y cyfle i weithio'n llawn amser yn hytrach na'r byd o weithio'n llaw-rhydd. Wedi cyfnod o bum mlynedd o weithio ym Mhenllyn, derbynais swydd yn gweithio i gwmni Dafydd Hardy, a rwyf bellach yn rhedeg yr adran gosod tai ar draws ardal Gwynedd, Môn, Penllyn ac ardal eang o Gonwy. Fel mae amser yn mynd yn ei flaen, mae'r dyhead a'r ysfa i ddod adre ac ail sefydlu fy hun yn yr ardal ble'm magwyd yn cryfhau - cawn weld beth a ddaw yn ystod y blynyddoedd nesa!!

**Ioan Evans**

Yn wahanol i fy mrawd, cwrs digon cyffredin fu llwybr fy mywyd i. Derbyniais innau fy addysg yn Ysgol Gynradd Rhydypennau ac Ysgol Penweddig cyn cwblhau fy ngradd mewn Cymraeg a Llên y Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor ac yna blwyddyn o gwrs ymarfer dysgu.

Cefais fy swydd gyntaf yn Ysgol Gyfun y Strade, Llanelli cyn symud ymlaen i Ysgol Gyfun Plasmawr lle dwi erbyn hyn yn athrawes Y Gymraeg ac yn Uwch Fentor ar ddarpar athrawon Prifysgol Met Caerdydd. Pum mlynedd ar hugain yn ôl priodais â Rolant Gwyn ac mae gennym un mab o'r enw Macsen. Yn ystod fy amser hamdden rwy'n mwynhau cymdeithasu, mynd i'r theatr a'r sinema, darllen a theithio. Rydym wedi ymgartrefu yn Llandaf ac yn mwynhau pob cyfle a ddaw i ddod adre nôl i Dôlwerdd.


**Rhian Gwyn**















# Chwe mis prysur



Y llynedd, buais yn ddigon ffodus i gael fy newis fel un o naw aelod cyntaf o banel newydd gan Gyngor Llyfrau Cymru, sef Panel Pobl Ifanc Cyngor Llyfrau Cymru. Nod y panel ydy sicrhau fod barn a syniadau pobl ifanc Cymru ar lyfrau a llenyddiaeth yn cael eu clywed a'u cymryd o ddifrif. Byddwn yn ymgynnull bob deufis i drafod ein barn a'n syniadau.

Yn dilyn proses o ymgeisio, cafodd y naw ohonom gyfle i gael cyfarfod yng Nghastell Brychan, Aberystwyth ym mis Gorffennaf yn yr haf yn ogystal a chael cyfarfod rhithiol ym Medi. Hyfryd oedd cael sgwrs banel wedi'i chadeirio gan yr awdur Llyr Titus i ystyried prosiectau cyfredol, hyrwyddo darllen a themâu apelgar. Dyma oedd cyfle gwych i drafod efo pobl ifanc ledled Cymru am ein hoff lyfrau, blychau y byd cyhoeddi yng Nghymru ac yn y Gymraeg yn ogystal a chael mewnwelediad cymhellol i waith y Cyngor Llyfrau.

Dwi'n hynod ffodus i fedru cynrychioli pobl ifanc, gan fod darllen, yn fy marn i, yn cyfoethogi bywydau plant a phobl ifanc. Daeth yn amlwg yn ein trafodaethau fod safbwynt cyffredin gan y panel fod angen moderneiddio'r byd llyfrau Cymraeg i'r oes ddigidol fodern. Daethpwyd yn eglur fod modd i wneud hyn trwy brosiectau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, recordio llyfrau sain a chyhoeddi mwy o lyfrau cynhwysol ac amrywiaethol. Er mwyn cynyddu darllenwyr ifanc, rhaid cael dewis eang o lyfrau sydd at ddant pob unigolyn.

Yn ychwanegol, buais yn ffodus i fynychu digwyddiad y Cyngor Llyfrau i ddathlu darllen yn y Senedd ym Mae Caerdydd ym mis Tachwedd. Cafwyd trafodaeth banel hynod ddifyr efo Caryl Lewis a Malachy Edwards yn ogystal a siaradwyr megis Jeremy Miles AS a Gerwyn Williams. Roedd yn agoriad llygaid i weld yr holl lwyddiannau a gwaith caled aiff i fewn i annog darllen ymysg yr ifanc.

Gobeithiaf yn fawr fy mod yn medru cynorthwyo y Cyngor Llyfrau i barhau efo'u gwaith hynod bwysig yn hyrwyddo darllen er pleser yma yng Nghymru.

*Hawlfraint llun- @LlyfrauCymru ar X (Trydar)*

**Elen Madrun**




**Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion**

**Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd**

## DIOLCH, a gwahoddiad i barti!

Mawr yw ein diolch i bawb a fu mor hael yn cefnogi ein hymdrechion ddiwedd 2023 i hel arian at achosion da, wrth i ni ganu carolau hyd y lle. Mae eich cefnogaeth bob tro yn golygu llawer i ni fel clwb, a braf yw gallu datgan ein bod wedi llwyddo i godi £1,500 ym mis Rhagfyr, i'w rannu rhwng Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais, a Sefydliad DPJ Foundation. Mae'r ddwy elusen yn gwneud cymaint dros ein cymuned ni, felly mae'n braf medru rhoi rhywbeth yn ôl iddyn nhw. Byddwn ni'n rhoi'r arian iddyn nhw yn nes ymlaen eleni.

Tra'n bod ni'n ffarwelio â 2023, mae ganddon ni rywbeth cyffrous i edrych ymlaen ato ar ddechrau 2024! Mae CFfI Tal-y-bont yn 70 oed eleni, felly rhaid, wrth reswm, drefnu dathliad! Mae hyn yn dipyn o garreg filltir, ac ar nos Sadwrn 24 Chwefror bydd Cinio Clwb yn digwydd yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Bydd bwyd poeth, adloniant a digon o bethau eraill i brocio'r cof o'n llwyddiannau a'n cyfeillgarwch dros y blynyddoedd diwethaf. Gallwch brynu tocyn oddi wrth unrhyw un o arweinwyr y Clwb (Mair Nutting, Huw Llety Ifan Hen, Lowri Jones, Sera Llywelyn, Sara Gibson, Ynyr Siencyn, Siôn Pennant, Rhian Glanrafon) neu drwy gysylltu gyda ni drwy ein tudalen Facebook – Cyfeillion CFfI Tal-y-bont. Dewch yn eich niferoedd i ddathlu! Bydd mwy o fanylion yn *Nhincer* mis Chwefror.

# Bow Street

**Oedfaon y Garn**
**10.00**
*Ionawr*
21 Bugail
28 Oedfa'r Ofalaeth – Pen-llwyn

*Chwefror*
3 Noddfa
10 Bugail
17 John Tudno Williams
24 Bugail

**Noddfa**
*Ionawr*
28 Richard Lewis

*Chwefror*
4 Richard Lewis. Y Garn yn uno.
11 Richard Lewis. Cymundeb.
18 Cyfeillach
25 Richard Lewis

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mrs Jean Davies, Cnwc y Deintur, Maes y Garn, a'r teulu ar farwolaeth Elizabeth ei chwaer ar drothwy'r Nadolig.

**Dathlu**
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mr Ken Davies, Maes Ceiro, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 98 ar y 29ain o Ionawr.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Dechreuodd y flwyddyn yn Neuadd Rhydypennau gyda'n Llywydd newydd, Mrs Brenda Jones yn croesawu pawb i'r noson gyntaf ac yn amlinellu'r rhaglen am y flwyddyn.

Y siaradwr cyntaf oedd Gareth William Jones yn sôn am yr holl lythyrau caru bu W. J. Gruffydd yn sgwennu at Mary Davies. Buodd Mair Jones yn dangos sut i gadw'n heini drwy ymarfer yoga syml ac yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gadw'n ystwyth. Y siaradwr cyn y Nadolig oedd Beti Wyn Davies, yn dangos sut i gynllunio addurn Nadolig trwy ddefnyddio nwyddau naturiol fel dail ac ati ac addurniadau lliwgar eraill. Pawb yn mynd adre yn bles iawn gyda'i addurn ac yn barod i'r 'dolig.

**Stori a chân**
Cynhelir stori a chân gyda Sian Evans yn Neuadd Rhydypennau dyddiau Mawrth 23, 30 Ionawr a 6 Chwefror am 1.30. Am ddim.

**Nadolig yn Noddfa**
Cafwyd tri gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig yng Nghapel Noddfa yn ystod Rhagfyr a'r hyn oedd yn cysylltu'r tri oedd perthnasedd neges y geni i fywyd heddiw. Ar yr ail ar bymtheg o Ragfyr cafwyd gwasanaeth Nadolig dan ofal Richard Lewis wedi ei gynorthwyo gan Mair Lewis ar y thema 'Angylion'. Roedd y capel wedi ei addurno'n briodol gan Elisabeth Wyn a chafwyd paned a chacen Nadoligaidd i ddilyn a chyfle i gymdeithasu. Ar fore noswyl Nadolig roedd y gwasanaeth dan ofal Gareth William Jones a thema'r gwasanaeth y tro hwn oedd 'Hen, hen stori'. Cyflwynwyd yr 'hen stori' drwy lygaid y prif gymeriadau a chafwyd cymorth Arwel, Hywel, Anwen, Leila a Janet. Maria oedd wrth yr organ. I ddyfynnu geiriau'r bardd T. Glynne Davies 'er ei bod yn stori ryfedd i'w choelio, ac yn corddi'n y meddwl fel rhyw hen diwn gron, mae'r byd o hyd yn barod i gymryd Gwaredwr, a fuo fo 'rioed yn aeddfetach na'r ennyd hon'.

Am hanner awr wedi un ar ddeg ar noswyl Nadolig daeth cynulleidfa o dros ugain at ei gilydd i groesawu'r diwrnod mawr a hynny dan ofal Richard. 'Tywysog Tangnefedd' oedd ei thema a dechreuodd ei fyfyrdod drwy ddyfynnu Twm Morys: 'Naw wfft ar fore Nadolig Ei eni O, i'r Trilliw cynddeiriog a'r seren o'i cho'; Un faner sy'n cyfri erbyn hyn: Colomen wen ar gefndir gwyn.' Arwel oedd wrth yr organ.

# Cerddwyr Rhydypennau



(Lluniau: Vaughan Griffiths)



Yr Athro Peredur Lynch yng Nghymdeithas Lenyddol y Garn



Y parti canu yng Ngwasanaeth y Gair a'r Geiriau.



Chwiorydd y Garn yn mwynhau te prynhawn yng Nghrefftau Pennau

Daeth Rees Thomas â phawb ynghyd ym mharti Nadolig Cerddwyr Rhydypennau, a hynny yng Nghaffi Consti, i ddathlu teithiau niferus y flwyddyn a fu. Bu'n tywys criw mawr ym mhob tywydd, bron iawn bob wythnos yn yr ardal a thu hwnt. Fe gafodd y trip dan do ar gerbydau rheilffordd Consti yn y glaw trwm groeso mawr!

Fel y gwelwch, mae'r criw eisoes wedi ailgydio yn y cerdded yn gynnar yn y flwyddyn newydd yn ardal Llanilar a Thrawsgoed.

Diolch i Rhys am flwyddyn o deithiau hyfryd a difyr.





**Marwolaeth**
Trist clywed am farwolaeth sydyn Gwen Davies, Tŷ Brics, ganol y mis. Cydymdeimlwn â Geraint a Donna.

**Mis Rhagfyr a'r Nadolig yn y Garn**
Y Bore Coffi a drefnwyd gan Gymdeithas y Chwiorydd fore Sadwrn cyntaf mis Rhagfyr i godi arian at y Banc Bwyd yn Aberystwyth agorodd dymor y Nadolig yn swyddogol i ni. Yn dilyn hynny bu'r Chwiorydd yn cyd- fwynhau te Nadolig blasus ym mwyty Crefftau Pennau ar Ragfyr 6ed. Yng nghyfarfod y Gymdeithas Lenyddol ar Ragfyr 15fed "Nadolig y Beirdd" oedd testun darlith Yr Athro Peredur Lynch, a dynnodd ein sylw at dri bardd a thair carol, sef 'Mab a'n rhodded' gan Madog ap Gwallter, sy'n cael ei hystyried fel y garol hynaf yn yr iaith Gymraeg, cerdd Eos Iâl, 'Ar gyfer heddiw'r bore', sydd bellach yn un o'n carolau mwyaf poblogaidd, a cherdd Nadoligaidd rymus y Parch. R. Meirion Roberts o gyfnod yr Ail Ryfel Byd – sy'n sôn am ei waith fel caplan yn cefnogi'r hogiau cyffredin oedd yn ymladd ar faes y gad. Diolchwyd i'r Athro Lynch am gyflwyniad arbennig gan yr Athro Gruffydd Aled Williams.

Ddydd Sul, Rhagfyr 16eg, cawsom oedfa deuluol yn y bore dan arweiniad ein bugail, a Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau i'r Ofalaeth yn yr hwyr, pryd clywyd darlleniadau cyfarwydd a newydd gan wahanol aelodau o'r gynulleidfa a charolau gan y parti canu dan arweiniad Alan Wynne Jones. Cafwyd gwasanaeth bendithiol yn y capel hefyd fore dydd Nadolig.

## Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Pen-llwyn**
*Ionawr*
21 5.00 Y Parchg Carwyn `Arthur
28 NODER 10 o'r gloch y bore Oedfa'r Ofalaeth ym Mhen-llwyn (yn anghywir yn rhifyn mis Rhagfyr)

*Chwefror*
4 10.00 – Dr. Watcyn James
11 10.00 – Y Parchg Wyn Morris
18 2.00 – Dr. Watcyn James
25 2.00 – Y Parchg Judith Morris

Croeso cynnes i bob un i'r gwasanaethau yma.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Nia a Llifon Ellis, Brynawel, ar enedigaeth eu merch, Mali Enlli ar 18fed Rhagfyr, chwaer fach i Mirain Grug. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Hefyd llongyfarchwn Heather Ellis Jones, yr Old Vicarage wrth iddi ddod yn fam-gu am y tro cyntaf, a'r un cyfarchion i Eluned a Noel Scott, Awelon wrth iddynt hwythau ddod yn hen fam-gu a tad-cu. Cafodd Tommy Joseff ei eni ar 23ain o Rhagfyr i Ashley a Tomos James yng Nghaerfyrddin. Dymuniadau gorau i chithau fel teulu.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Llŷr ap Dafydd (Dolafon) a Mel o Fanceinion ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad â Sian a Cefin Evans a'r teulu, Rhiwarthen Isaf wrth iddynt golli ewythr ym marwolaeth Mr. Hywel Evans, Cwmaethlon, Pennal, Machynlleth. Ef oedd yr ieuengaf o chwech o blant, ac ef oedd yn ffermio yr hen gartref. Bu farw mam Sian, ei chwaer, rai blynyddoedd yn ôl.


**Prawf gyrru**
Mae Owen Evans, Fferm Cwmwythig wedi pasio ei brawf gyrru tractor, gwyliwch allan amdano ar lonydd cul Pen-llwyn. Da iawn ti, prawf gyrru car fydd y dasg nesaf flwyddyn nesaf.

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr. Sid Clench sydd wedi treulio peth amser yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. da deall eich bod yn gwella yn foddhaol erbyn hyn.

**Marwolaeth**
Trist yw cofnodi marwolaeth Mr. Billy Evans gynt o Fferm Llwyniorwerth Isaf, Capel Bangor ar 22 Rhagfyr. Bu Billy a'i briod Elizabeth, ynghyd a'u plant William a Jane yn ffermio yn ein plith am flynyddoedd lawer cyn ymgymryd â rhedeg y Clwb Golff yn ddiweddarach. Roeddent wedi ymgartrefu ym Mhenrhyn-coch erbyn hyn, ond yn ôl i Eglwys Dewi Sant y deuai Billy bob bore Sul i chwarae'r organ yn y gwasanaethau, ac mae'r cysylltiadau a'n hardal ni wedi parhau yn glos ar hyd yr amser, a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth o golli priod, tad, tad-cu a hen dad-cu annwyl dros ben.

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Ar ochr ddeheuol Dyffryn Rheidol ychydig i'r dwyrain o stad ddiwydiannol Glanrafon, mae adfeilion fferm *Tyn-y-fron* (SN619800). Yr unig arwydd o'r enw ar fapiau diweddar yr Arolwg Ordnans yw coetir cyfagos *Coed Tyn-y-fron*.




**Map 6" yr Arolwg Ordnans, Ceredigion VI SE (1906)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Does dim yn arbennig am yr enw: *tyn* (*ty'n*) cywasgiad o *tyddyn*, bannod *y*, a ffurf dreigledig *bron*, yn disgrifio annedd wedi'i lleoli ar lethr ymchwyddol. Ond mae'n werth edrych yn ôl ar y dystiolaeth hanesyddol.

Dengys geiriad un o weithredoedd stad Cwrt-mawr (rhif 505) a luniwyd ar 16 Tachwedd 1687, bod *Tyn-y-fron* (*Tyddyn-y-fron*) yn cael ei adnabod hefyd wrth yr enw *Tyddyn Croes Sulien*:

> Mortgage of m[essuage]s called Pen y Quarel, Tyddyn y Bwlch, ***Tyddyn Croes Shilian alias Tyddyn y vron*** and Tyddyn y Werne and parcels called Llayn ffynnon Rewi, Llayn ddu, Llayn Millionen and Llayn y Pwll Glas, all in p[arish] Llanbadarne Vawre, co[unty] Card[igan]

ac mae modd olrhain yr enw hwnnw yn ôl dros ganrif i un arall o weithredoedd Cwrt-mawr (rhif 182) dyddiedig 22 Mehefin 1579:

> Mortgage of a t[ene]m[en]t called ***Tythen crossysillan***, parish Llanbadarn vawr, co[unty] Card[digan]

Fe sylwch bod gweithredoedd Cwrt-mawr yn nodi mai ym mhlwyf Llanbadarn Fawr yr oedd *Tyn-y-fron* neu *Dyddyn Croes Sulien*. Rhaid cydnabod bod lle arall o'r enw *Tyn-y-fron* yn y plwyf hwnnw, yn uwch i fyny'r dyffryn rhwng Castell Bwa-drain ac Ystumtuen (SN723785). Ond gan fod yr enwau eraill a grybwyllir yn y weithred gyntaf, *Penycwarel*, *Tyddyn y Bwlch* (sef *Bwlch Mawr* bellach), a *Thyddyn y Werne* (sef o bosibl *Wern-ddu*), oll yng nghyffiniau Moriah, gallwn fod yn saff mai *Tyn-y-fron* yr ardal honno sydd dan sylw yma. Mae'n werth nodi hefyd bod y rhan isaf hon o gwmwd y Creuddyn yn arfer perthyn i Lanbadarn Fawr, ac yn cael ei galw'n Lanbadarn-y-Creuddyn o'r herwydd.

Ond yn ôl â ni at *Dyddyn Croes Sulien*. Cyfuniad sydd yma o'r elfennau *tyddyn*, *croes*, ac enw personol *Sulien*. Ond beth yw arwyddocâd yr enw?

Tua diwedd y bymthegfed ganrif neu ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, canodd y bardd Syr Phylib Emlyn awdl o foliant i Grist, lle mae'n sôn am ddelw o groes (heb ei henwi) yn *Rhydyfyrian*, Dyffryn Paith, rhyw filltir i'r de-orllewin o *Dyn-y-fron* neu *Dyddyn Croes Sulien*. Mae M. Paul Bryant-Quinn, golygydd y gyfrol *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel* (2001; t.67-8), o'r farn bod y groes dan sylw yn rhyw fath o dirnod crefyddol adnabyddus, a chred bod posibilrwydd mai *Croes Sulien* oedd hi, sef y groes a goffeir yn enw'r tyddyn.

Oherwydd lleoliad *Tyddyn Croes Sulien* nid nepell o Lanbadarn Fawr, gallai'r enw fod yn gyfeiriad at *Sulien*, athro ac ysgolhaig o'r unfed ganrif ar ddeg oedd â chysylltiad agos â'r clas yno. Rheswm arall dros gredu hynny yw bod awdl Syr Phylib Emlyn hefyd yn sôn am *Arthen*, a dyna oedd enw un o feibion *Sulien*. Fel mae'n digwydd, mae'n bosibl bod ffermydd *Rhiwarthen Uchaf* ac *Isaf* yn uwch i fyny Dyffryn Rheidol yn cadw cof ohono.

Roedd cyfnod *Sulien* yn rhan o oes aur y croesau, a gallai hon fod wedi ei chodi ganddo ef ei hun, neu gan ei ddilynwyr fel coffadwriaeth iddo. Bryd hynny, byddai'n anodd croesi afon Rheidol yn is i lawr y dyffryn na Llanbadarn oherwydd ei llif. Tybed felly a oedd *Croes Sulien* yn dynodi man cychwyn y daith i'w chroesi, gyda phomprenni'n hwyluso tramwy dros ei dolydd corsiog efallai, a chwch yn cludo teithwyr dros ei phrif sianel. Rhaid cofio bod Llanbadarn yn gyrchfan i bererinion, a byddai angen llwybr diogel i'r rheini fyddai'n teithio yno o gyfeiriad y de.[1]

Waeth beth yn union oedd pwrpas *Croes Sulien*, mae'r cof amdani wedi hen ddiflannu o'r tir. Serch hynny, heddiw, coffeir *Sulien* mewn dau enw lle arall yng nghyffiniau Llanbadarn Fawr. *Ffordd Sulien* yw enw'r heol a adeiladwyd er mwyn osgoi canol y pentref, a gelwir un o stadau tai newydd Parc y Llyn yn *Glos Sulien*.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

---

1 **Diolch i Dr Daniel Huws am rannu ei wybodaeth a'i farn â mi ynghylch hyn.**


BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion
Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth**
6/1/2024
1037(Gwerthwyd y cyfan).
Roedd yr haul allan i groesawu arwerthiant gyntaf y flwyddyn. Roedd masnachu yn wych gydol y dydd ar y defaid a gwerthodd yr ŵyn trymaf yn arbennig o dda.
Prisiau da unwaith eto fel a ganlyn:

Brokers/killers (523) amcg £70.80. Mwy £169 gan Brifysgol Aberystwyth.

Ŵyn stôr (478) amcg £68.50. Mwy £123 gan Jones, Pant-y-dail.

Hyrddod lladd (36) amcg £102. Mwy £148 gan Price & Roberts, Troed-y-rhiw.

Diolch i'r cynhyrchwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth, a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.



## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Urdd y Gymuned**
Cynhaliwyd y parti blynyddol yn y Ganolfan eleni eto, roedd dau ar bymtheg o blant yn bresennol. Cafwyd noson hyfryd o wledda a chymdeithasu. Daeth Sion Corn a anrheg I bob plentyn a chafwyd seswn o hud a lledrith gan John Alderslade. Diolch i bawb am wneud y noson yn un mor llwyddiannus. Oherwydd y tywydd garw ni aeth neb o amgylch i ganu carolau eleni ond gobeithio gwneud casgliad tuag at y Banc Bwyd yn ein cinio blynyddol.







Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8
whhowells@gmail.com



SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r MRCPod

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

# Ysgol **Penrhyn-coch**





**Dysgu'r mis**

Wrth agosáu at y Nadolig bachodd disgyblion ar y cyfle i ddefnyddio'r ŵyl fel thema i ddatblygu eu sgiliau creadigol, a'u cymhwysedd digidol. Bu disgyblion dysgu sylfaen yn creu animeiddiad o stori'r geni ac yn recordio troslais ar ei gyfer. Bu disgyblion hyn yn defnyddio microbit i greu addurn Nadolig digidol. Gair am ddysgu'r tymor gan Chanel:

Tymor yma rydym ni wedi dysgu am yr Ail Ryfel Byd. Rydym ni wedi creu dyddiadur milwr neu ifaciwî. Mi wnaeth pawb fwynhau hefyd dysgu am Anifeiliaid mewn perygl. Rydym yn edrych ymlaen at ddysgu tymor nesaf.

**Caffi Ho Ho Ho**

Yn dilyn y syniad gwych i greu caffi Nadoligaidd i godi arian tuag at Cyfeillion Bron-glais. Daeth Elinor a Rhian o Gyfeillion Bron-glais i'r ysgol i dderbyn siec gan gyflwyno tystysgrif i ddisgyblion am eu gwaith dyngarol gan esbonio sut mae yr arian maent wedi codi yn mynd i fod o fudd i'r ysbyty. Penderfynodd disgyblion gyfrannu'r arian i ward Angharad.

**Gwasanaeth Nadolig**

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig yn Neuadd y Penrhyn, lle bu disgyblion wrth eu bodd yn diddanu cynulleidfa yn ystod y Prynhawn a chyda'r nos. Canwyd casgliad o garolau gan y plant lleiaf a bu'n ein harwain trwy rhan gyntaf stori'r geni, cyn i ddisgyblion hyn yr ysgol berfformio sgets am y Bugail Blin ac ein hatgoffa o ran y tri brenin yn stori'r geni. Atgoffodd dosbarth 3 eu rhieni i feddwl am wir ystyr y Nadolig wrth gyd-lefaru 'Llythyr at Rhieni' gan Tudur Dylan Jones cyn perfformio 'Carol of the Bells' mewn teyrnged i deulu disgybl o'r Wcrain sydd yn rhan o'n cymuned ysgol. Uchafbwynt y wasanaeth oedd gweld disgyblion yn perfformio fersiwn Brigyn o Haleliwia gan greu delweddau trwy ddefnydd o theatr cysgodion.

Dyma brofiad Iona o sioe'r Nadolig:

Pob blwyddyn, rydym ni yn neud Sioe Nadolig. Mae hi yn ffordd o ddangos stori'r geni mewn ffordd hwyl. Blwyddyn yma rydym wedi perfformio gwasanaeth. Pob tro inni'n gwneud sioe mae hi'n fwy ac yn fwy o hwyl. Roedd pawb wedi joio. Fy hoff ddarn i oedd perfformio sgets y bugail blin.

**Ein cymuned**

Bu'r ysgol wrthi yn paratoi cardiau i bobol a busnesau'r gymuned a'u dosbarthu ar ddiwedd tymor. Diolchwn i bob gwirfoddwr, a phob busnes sydd yn ein cefnogi yn barhaus.

**Dathliadau'r Nadolig**

Ynghyd a chinio ysgol braf ac ymweliad gan Sion Corn, braf oedd cael y cyfle eleni i fynd i ganu yn Tescos. Rhwng canu yn Tesco a'r gyngerdd Nadolig, codwyd £1700 i'r ysgol. Braf oedd gorffen tymor y Nadolig gyda gwasanaeth Christingle yn Eglwys Sant Ioan. Diolch i'r Parchedig Lyn Rees am annerch.





# Ysgol **Pen-llwyn**







**Dysgu yn y dosbarth**
Bu dosbarth 1 yn mwynhau hwyl yr Wyl trwy ganolbwyntio ar straeon -cafwyd llawer o hwyl yn gwrando ar hanes Sam y ci pwdlyd ac yn wir nid oedd yn hoffi llawer am y Nadolig!

Bu dosbarth 2 yn mwynhau datblygu ei sgiliau creadigol a TGCH yn arwain at y Nadolig. Cafwyd llawer o sbort yn creu tai sinsir allan o gardfwrdd a chreu animeiddiadau Nadoligaidd ar ein teclynnau TGCH.

**Cyngerdd**
Teitl ein sioe eleni oedd –'Nadolig heb Wi-Fi'ac roedd hi'n braf gweld yr holl ddisgyblion ar lwyfan Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Cafwyd noson arbennig a'r neuadd yn morio canu a chwerthin! Da iawn chi blant roeddech wir yn wych! Dyma beth oedd Megan yn meddwl o'r sioe...

Roedd y neuadd yn llawn o rieni, teuluoedd a phobl o'r gymuned. Roedd y sioe amdano 'DIM Wi-Fi'yng Nghapel Bangor dros y Nadolig. Adroddwr oeddwn i-roeddwn yn nerfus ar y dechrau ond erbyn y diwedd roeddwn yn mwynhau perfformio. Fe wnaeth Miriam fy chwaer mwynhau hefyd!

**Ein cymuned**
Bu'r ysgol wrthi yn paratoi cardiau i bobol yn y gymuned a'u dosbarthu ar ddiwedd tymor. Diolchwn i bob gwirfoddwr, a phob busnes sydd yn ein cefnogi yn barhaus trwy'r flwyddyn.

**Dathliadau'r Nadolig**
Ynghyd a chinio ysgol braf ac ymweliad gan Sion Corn, braf oedd cael y cyfle eleni i fynd i ganu yn Tesco. Rhwng canu yn Tesco a'r gyngerdd Nadolig, codwyd £1500 i'r ysgol. Braf oedd gorffen tymor y Nadolig gyda gwasanaeth Christingle yn Eglwys Dewi Sant. Diolch i'r Parchg Nicholas Bee am ein hannerch ac i aelodau'r eglwys am baratoi yr adeilad i ni.

Aeth y disgyblion i gefnogi Tafarn y Maes eleni trwy fynd yna i ganu amrywiaeth o ganeuon Nadoligaidd - diolch i bob teulu am y gefnogaeth.

Yn ogystal a hynny roedd ganddom goeden fach hardd yn arddangosfa yr eglwys eleni a braf iawn oedd medru cefnogi. Coeden ar y thema lliw gwyrdd oedd ganddon ni ac roedd pob disgybl wedi creu addurn penodol i'r goeden.

**Arddangosfa**
Eleni cafon sypreis hyfryd wrth Kathy sydd yn byw yn y pentref-roedd hi wedi gwau cymeriadau'r geni i ni-Mair, Joseff a'r Baban Iesu, Y Doethion, Y bugeiliaid a'r anifeiliaid wrth gwrs. Fe ddaeth y cymeriadau mewn stabal pren hyfryd ac rydyn yn ddiolchgar iawn iddi am ei rhodd hael.








COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

# Ysgol Craig yr Wylfa



**Ysgol y Gymuned**

**Cyngerdd Nadolig**

Cynhaliwyd ein cyngerdd Nadolig eleni yn y Neuadd Gymunedol ac roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o drigolion lleol a chyn ddisgyblion wedi dod i gefnogi'r ysgol unwaith eto. Hoffwn ddiolch i swyddogion y neuadd am bob cymorth gyda'r ymarferion.

Cyflwyno stori'r geni wnaethom eleni gyda'r plant i gyd yn mwynhau'r perfformio, y canu, y dawnsio a'r actio. A'r cyfan yn ein harwain at y preseb ac at eni Iesu Grist. Roedd hi'n amlwg fod y gynulleidfa a'r plant wrth eu boddau ar y noson ac roedd y gyngerdd wedi eu gwau at ei gilydd yn llwyddiannus iawn.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor drwyadl ac i'r rhieni hefyd am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd. Pob clod i'r plant am ddysgu eu darnau mor arbennig ac am eu perfformiadau cofiadwy. Roedd naws arbennig i'r noson ac roeddem i gyd yn hynod falch o allu bod yn rhan o'r gymuned.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i Lizzie ac aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon hefyd am roi o'u hamser i baratoi ar gyfer y noson ac am sicrhau fod pawb wedi mwynhau eu hunain.

Credwn fod cynnal noson fel hon hyn yn atgyfnerthu ymdrechion yr ysgol i fod yn rhan allweddol o'r gymuned leol yn ogystal â chael cyfle i gyfrannu i'r gymuned ehangach.

**Cyngerdd yn yr Hwb Cymunedol**

Cafodd yr ysgol wahoddiad i ddiddanu trigolion yr ardal ym mharti Nadolig yr Hwb Cymunedol cyn diwedd y tymor. Roedd hi'n hyfryd gallu perfformio mewn awyrgylch ymlaciol a chroesawgar. Diolch o galon am y croeso ac am y danteithion melys!

**Cristingl yn yr Eglwys**

Mae'r cysylltiad gydag Eglwys St Mathew wedi parhau yn ystod mis Rhagfyr gyda gwasanaeth Cristingl hyfryd. Da iawn i'r plant am ganu mor swynol a diolch yn fawr iawn i aelodau'r eglwys am y croeso a'r anrhegion Nadolig.

**Cinio Nadolig**

Unwaith eto rydym am ddiolch i staff y gegin am ginio Nadolig arall blasus iawn. Diolch o galon i Wendy a Wendy am edrych ar ein hol yma yn Ysgol Craig yr Wylfa dros y flwyddyn.

**Parti Nadolig**

Cafwyd parti hyfryd yn yr ysgol i ddweud diolch wrth y plant am eu gwaith. Diolch yn fawr i ymwelydd arbennig iawn am ddod atom i ddosbarthu'r anrhegion – gobeithio bod Sion Corn wedi cael cyfle i ymlacio erbyn hyn!

**Gweithgareddau Lles**

Hyd yn oed dros y Gaeaf, mae'r gweithgareddau Ysgol y Goedwig yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r amserlen wythnosol ac yn ffordd arbennig o barhau gyda'n gweithgareddau lles. Fel y gwelwch o'r lluniau, mae paratoi amrywiaeth o fwyd yn rhan bwysig iawn o'r gweithgareddau.

**Plant 3 oed?**

Cofiwch gysylltu gyda ni os oes gyda chi blentyn sydd yn 3 oed, cysylltwch gyda ni er mwyn i ni allu rhannu ein cynlluniau cyn ysgol gyda chi.

**Staffio**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i longyfarch Mrs Natalie Edwards ar ei phenodiad fel Pennaeth Ysgol Gynradd Llan-non. Mae Mrs Edwards wedi bod yn rhan annatod o gymuned yr ysgol hon dros y 15 mlynedd diwethaf ac yn ystod y cyfnod yma, mae hi wedi adeiladu sylfaen gref i ni adeiladu arni yn y dyfodol. Byddwn yn siŵr o weld colli Mrs Edwards yn Ysgol Craig yr Wylfa ond dyma gyfle gwych iddi ddatblygu ei gyrfa wrth ymgymryd â'r dyletswyddau newydd. Pob hwyl i chi.

Hoffwn hefyd longyfarch Miss Lucy Hughes ar fod yn llwyddiannus yn ei chais i fod yn Bennaeth Cynorthwyol. Rydym yn edrych ymlaen at ei chroesawu yn ôl i'r ysgol wedi cyfnod mamolaeth i'r rôl newydd. Pob hwyl i chi hefyd.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr i Tomos Jenkins am ei waith gyda ni yn ystod Tymor yr Hydref fel myfyriwr TAR. Roeddwn yn hynod ffodus o'i gael yma ac roedd wedi llwyddo i greu perthynas hyfryd gyda'r plant. Dymuniadau gorau i chi wrth i chi barhau gyda'r cwrs.









# Ysgol **Rhydypennau**



Cyngerdd Nadolig y Meithrin a'r Derbyn.



Canu carolau yn Tesco.

**Ffarwelio**

Ar ddiwedd y tymor bu'n rhaid ffarwelio â Miss Laura Blakemore. Bu Miss Blakemore yn athrawes yn y dosbarth Derbyn a'r Meithrin am dros 6 mlynedd. Rydym yn diolch o galon iddi am ei hymroddiad a'i gwaith caled dros y cyfnod hwn ac yr ydym yn dymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

**Cyngherddau'r Nadolig**

Ar ddiwedd tymor yr hydref, cafwyd perfformiadau arbennig gan holl blant yr ysgol i ddathlu'r Nadolig. Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn ar fore'r 12eg a'r 13eg ar gyfer cyngerdd Nadolig y Meithrin a'r Derbyn. Cafwyd perfformiadau campus yn ystod y ddau fore a chyfle i'r gynulleidfa fwynhau paned, sgwrs a raffl.

Ar noson y 14eg, perfformiodd blynyddoedd1-6 Stori'r Geni yng Nghapel y Garn; cafwyd gwledd o actio a chanu yn ystod y noson o flaen cynulleidfa werthfawrogol iawn. Hoffa'r ysgol ddiolch i aelodau'r Garn am y cydweithrediad a'r cymorth. A diolch hefyd i blant a staff yr ysgol am sicrhau perfformiadau arbennig ar ddiwedd tymor hir iawn. Braf cyhoeddi fod y cyngherddau wedi codi £1685. Campus!

**Clwb Cant**

Dyma ganlyniad Rhagfyr:
1af – £50 – Trefor Davies
2il – £30 – Catrin Evans
3ydd – £20 – Matt Watkins

**Dathlu'r Nadolig**

Yn dilyn y traddodiad, cynhaliwyd cinio Nadolig i henoed yr ardal ar ddydd Sadwrn cyntaf fis Rhagfyr yn neuadd yr ysgol. Bu Mrs Wendy Jones a'i staff yn brysur iawn yn paratoi gwledd i 80 o bobl eiddgar iawn. Diolch yn fawr i staff y gegin ac i Bwyllgor yr Henoed am drefnu'r achlysur mor effeithiol.

Ar yr 20fed o Ragfyr, bu Mrs Jones a staff y gegin yn brysur eto yn paratoi cinio Nadolig i'r plant a'r staff. Ar yr un diwrnod cafodd y plant gyfle i wisgo siwmperi Nadolig. Braf oedd gweld amrywiaeth o ddelweddau Nadolig o bob lliw a llun yn ystod y dydd.

Ar y deunawfed o'r mis, fe aeth yr ysgol gyfan i'r dref i fwynhau ffilm yn Sinema'r Commodore. Diolch yn fawr i Gymdeithas Athrawon a Rhieni'r ysgol am gwrdd â chostau'r ymweliad.

Ar y 19eg o Ragfyr, cafodd Blwyddyn 6 gyfle i ganu carolau tu allan archfarchnad Tesco er mwyn codi arian i'r ysgol. Ar ôl awr o ganu, a chyfraniadau hael y cyhoedd, codwyd cant a hanner o bunnoedd! Diolch yn fawr iawn i'r sawl fuodd mor garedig i ni yn ystod y bore.

Yn y pnawn, tro blwyddyn 5 oedd hi i berfformio yn y gymuned; y tro hwn, wrth ddiddanu trigolion Cartref Tregerddan. Profiadau gwerthfawr iawn.

I goroni'r cwbl, diolch arbennig i Siôn Corn am dreulio ychydig o'i amser prin gyda ni er mwyn dosbarthu anrhegion cynnar i bob plentyn yn yr ysgol.

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer! Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk @ YGRhydypennau-dilynwch ni!



Blwyddyn 5 yn mwynhau ymweliad Sion Corn.



Cyngerdd Nadolig blwyddyn 1-6 yn Y Garn.

# Tasg y Tincer

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Diolch yn fawr i'r tri fu'n brysur yn lliwio yn ystod y gwyliau: Maddison Jones, Bow Street; Alys England, Bow Street; Cadi Mitchell, Capel Dewi. Roedd eich lluniau'n arbennig iawn!

Dy lun di, Cadi, ddaeth o'r het yn gynta y tro hwn. Hwrê!



Cadi

Ydech chi wedi clywed am Guto Nyth Brân? Ei enw iawn oedd Griffith Morgan ac roedd yn byw 300 mlynedd yn ôl yn Llwyncelyn yn y Rhondda. Daeth yn enwog am wneud un peth – rhedeg! Mae sawl stori amdano'n gwibio fel y gwynt gan ennill sawl ras. Enillodd swm 1000 gini am ennill ras 12 milltir yn 1737. A faint yw gini? Mae'n ffortiwn – tua £180,000! Ond roedd y ras honno'n ormod i Guto bu farw ar ôl croesi'r llinell derfyn, wrth i Siân, oedd yn ei hyfforddi, ei guro ar ei gefn. Waw ... am stori!

Bob nos Galan (31 Rhagfyr), mae ras 3 milltir yn cael ei chynnal yn ardal Guto Nyth Brân, i gofio am ei gamp. Mae tua dwy fil o redwyr o bob oed yn cymryd rhan. Beth am roi cynnig arni yn 2024?




Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

Y mis hwn, beth am liwio llun y rhedwyr? Falle ei bod nhw'n wrthi yn y ras gafodd ei chynnal dair wythnos yn ôl! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP (neu ebostio anwenmai@hotmail.co.uk) erbyn 1 Chwefror. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 465 | Ionawr 2024*